**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
—
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Dawn Bowden AS
Cyn-gadeirydd
Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd

16 Tachwedd 2023

Annwyl Dawn

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Fel y gwyddoch, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn ffurfiol i'r Senedd ar 18 Medi 2023. Rôl y Pwyllgor Biliau Diwygio yw cynnal gwaith craffu Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Ar hyn o bryd, rydym yn casglu tystiolaeth i lywio ein casgliadau ac unrhyw argymhellion posibl. Mae'r dystiolaeth a gawsom hyd yn hyn yn cynnwys:

- Tystiolaeth lafar gan y cyn-Gadeirydd a chyn aelod o'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad.
- Tystiolaeth ysgrifenedig gan gyn-Gadeirydd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd.

Rôl y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd oedd trafod argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad. Ar ôl hynny, cylch gorchwyl y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd oedd trafod casgliadau'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd a gwneud argymhellion o ran cyfarwyddiadau polisi ar gyfer Bil Llywodraeth Cymru ar ddiwygio'r Senedd.

Felly, er mai'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad yw'r Aelod sy'n gyfrifol am Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a'r darpariaethau ynddo, hoffem roi cyfle i chi, yn rhinwedd eich rôl

fel cyn-Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol, i rannu unrhyw safbwyntiau sydd gennych ar y Bil.

Byddem yn croesawu ymateb ysgrifenedig erbyn dydd Iau 30 Tachwedd 2023.

Yn gywir



David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.